Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl321

**Amseru:** Unigol

**Teitl:** Parhau i Ariannu'r swydd Cydlynydd Stelcio ac Aflonyddu

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Ymhellach i Benderfyniad DLl301, gwnaed cais i barhau i ariannu'r swydd Cydlynydd Cam-drin Domestig a Stelcio, sy'n gorwedd o fewn Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd.

Ariannwyd y swydd hon gan Grant Troseddwyr Cam-drin Domestig y Swyddfa Gartref o 2021-2023. Cynhwyswyd y gweithgarwch hwn eto yn y cais am gyllid ar gyfer Grant Troseddwyr Cam-drin Domestig 2023-25 y Swyddfa Gartref. Gan nad oedd y cais yn llwyddiannus, ac oherwydd yr hysbysiad hwyr am y penderfyniad hwn, cytunodd y Comisiynydd i barhau i ariannu'r swydd hon yn 2023-24.

Profwyd bod y swydd hon yn gwella adnabod a rheoli troseddwyr, a bod perygl sylweddol mewn dileu'r swydd hon.

Argymhellir bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n darparu 50% o'r arian ar gyfer y swydd hon am gyfnod o 12 mis.

Gofynnwyd i'r Heddlu adlewyrchu'r swydd hon yn eu gweithlu ar gyfer 2024/25 fel swydd a ariennir yn rhannol gan y CHTh, ac yna bod cynlluniau'n cael eu gwneud i'r Heddlu ei hariannu'n gyfan gwbl yn y blynyddoedd i ddod os oes galw a thystiolaeth dros gynnal y swydd.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod yr arian ar gyfer y swydd hon yn dod o Gyllideb Cronfeydd Wrth Gefn y Comisiynydd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 14/11/23**